

Polisi Hygyrchedd

Datganiad

Mae'r polisi hwn ar gyfer hyrwyddo hygyrchedd mynediad i'r Ysgol hon. Fe'i diffinnir yn unol â Rhan IV o Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001) sydd yn rhoi dyletswydd ar ysgolion i gynyddu fwyfwy hygyrchedd ysgolion i ddisgyblion ag anableddau. Dylid ei ddarllen yng nghyd-destun polisiau eraill yr ysgol; yn arbennig felly Polisi Anghenion Addysgol Arbennig, a Pholisi cydraddoldeb hiliol / polisi cyfle cyfartal.

Diffiniad o Anabledd

Mae Deddf Plant 1989 yn datgan fod plentyn yn anabl os yw'n ddall, yn fyddar, yn fud, yn dioddef o anabledd meddyliol o unrhyw fath, yn anabl o achos sabwch neu anaf, yn anabl ers genedigaeath neu'n dioddef o unrhyw anabledd penodol arall. Nid oes yn rhaid i namau corfforol fod wedi eu cydnabod yn glinigol na hyd yn oed wedi cael diagnosis clinigol. Fodd bynnag, mae'n rhaid i namau meddyliol fod wedi cael diagnosis clinigol.

Nodau

1. Cynyddu'r mynediad yn yr ystyr ehangach, i sicrhau bod yr addysgu a'r dysgu yn hollol gyraeddadwy i bob disgybl.
2. Cwrdd â thair elfen y dyletswydd cynllunio fel y nodwyd yn Adran 28 D o Ddeddf AAA ac Anabledd 2001:
 - a. cynyddu'r graddau y mae disgyblion anabl yn gallu cymryd rhan yng nghwricwlwm yr ysgol;
 - b. gwella amgylchedd ffisegol yr ysgol i gynyddu'r graddau y mae disgyblion ag anableddau yn gallu manteisio ar addysg a gwasanaethau cysylltiedig mewn ysgolion; a
 - c. gwella'r modd mae gwybodaeth ysgrifenedig a roddir i ddisgyblion heb anableddau yn cael ei chyflwyno i ddisgyblion ag anableddau.

Amcanion

Wrth gynllunio ar gyfer anghenion disgyblion a darpar ddisgyblion ag anableddau, mae'r ysgol yn gwella mynediad i ddisgyblion ag anableddau yn gallu gwella mynediad i staff, rhieni ac aelodau'r cyhoedd sydd ag anableddau hefyd. Cynorthwya hyn yr ysgol gyflawni ei dyletswyddau cyfreithiol o dan Rannau II a III o'r DGA sydd wedi dod yn berthnasol, gam with gam, i ysgolion ac AALl ers 1996 (gweler Cylchlythyr 20/97 y Swyddfa Gymreig).

- 1 Gweithredu Cynllun Hygyrchedd Mynediad yn ei gylch gorchwyl a'i adolygu'n flynyddol
- 2 Cwrdd â'r dyletswydd a ddiffinnir yn Rhan IV o Ddeddf Gwahaniaethau ar sail Anabledd 1995
- 3 O ganlyniad gwella mynediad i'r adeilad, cwricwlwm a dogfennaeth yr ysgol.

Canllawiau Gweithredu

Bydd yr ysgol yn:

- sicrhau fod gwaith adeiladu/addasu/cynnal a chadw a drefnir gan yr ysgol yn cymryd anghenion plant a phobl ifanc ag anableddau, staff ac aelodau eraill o gymuned yr ysgol i ystyriaeth:
- cynnal archwiliad mynediad
- datblygu ethos cynhwysol
- darparu cyfarpar arbenigol i ddiwallu anghenion unigolion
- sicrhau hyfforddiant a chynghor i lywodraethwyr, staff addysgu a staff ategol
- cydweithio ag asiantaethau eraill i gefnogi mynediad a chynhwysiad.